# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2020/21

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Alun Roberts
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Seiriol

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | |
| Pwyllgor Adfywio | |
| Pwyllgor Apeliadau | |
| Pwyllgor Archwilio a Llwyodraethu | |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Biwmares<br><br>- Llywodraethwr / Ysgol David Hughes | Wedi mynychu 4 allan o 4 cyfarfod<br><br>Wedi mynychu 7 allan o 8 cyfarfod |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwyf yn aelod ac, ers yr Hydref, yn gadeirydd o Gyngor Cymuned Cwm Cadnant a byddaf yn mynychu cyfarfodydd y cyngor yn fisol. Rwyf yn ymgyghori efo y clerc yn rheolaidd ar holl faterion sy'n effeithio ar y gymuned leol. Yn ogystal, byddaf yn mynychu cyfafodydd misol Cyngor Tref Beaumaris a Chynghorau Cymuned Llanddona a Llangoed yn rheoliaidd neu mor aml a phosibl. Yn ystod y cyfnlod yn arwai at yr haf, rwyf wedi mynychu cyafarfodydd o Siambr Fusnes Beaumaris. Byddaf yn paratoi ac yn adrodd yn ol i'r cynghorau hyn mor aml a phosibl ac yn gweithredu ar eu rhan pan fo'r angen

Eto, eleni, dwi wedi bod yn falch o roi cymorth a chyngor i drigolion y ward. Rwyf wedi ceisio bod ar gael un ai dros y ffôn, drwy e-bost neu hyd yn oed zoom/teams. Wedi helpu etholwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ffyrdd, e.e.

- Cynllunio – wedi ymateb i geisiadau i gyfathrebu gyda'r adran gynllunio, un ai i wrthwynebu neu i ddarganfod fwy o fanylion.
- Priffyrdd - ymholiadau ynglŷn â nifer o faterion yn ymwneud a phroblemau gyda lonydd, parcio ayb.
- Amgylchedd – Delio hefo cwynion am ddifyg casglu gwastraff neu wastraff wedi ei adael ar ochr lonydd a thalu ac archebu am wasanaeth y bin gwyrdd, ayb.
- Tai – Cysylltu gyda'r adran ar ran tenantiaid y cyngor ar sawl achlysur ar nifer o faterion amrywiol iawn

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Eto, eleni, fel aelod ac is-gadeirydd o'r Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion, rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod nifer o Benaethiaid Pennaeth ysgolion Môn a, hefyd, Cadeiryddion Llywodraethwyr ac aelodau o Adran Addysg yr ynys.. Mae llawer o'r cyfarfodydd hyn wedi symud i fod yn rai ar lein dryw gyfrwn zoom oherwydd y pandemig Teimlaf fy mod gyda llawer i gynnig i'r panel arbennig hwn gan fy mod yn gyn athro fy hun. Mae y cyfarfodydd hyn Mae hyn wedi ychwangeu at fy nealltwriaeth o'r holl ddatblygiadau a newidiadau yn y byd addysg ar hyn o bryd

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

**5 - Gweithgareddau a Materion Erai**

Rwyf wedi bod yn falch o roi cymorth i fy nghymuned. Mae'r flwyddyn hon fel y flwyddyn flaenorol wedi bod yn daith ddysgu enfawr ond mewn ffordd gwbl wahanol

dros y misoedd diwethaf, ond yn daith yr wyf wedi ei mwynhau. Mae hyn, wrth gwrs, oherwydd y sefyllfa efo Cofid-19. Daeth newid llwyr mewn ffordd o weithio – bron pobeth yn digwydd ar lein drwy Zoom, Teams, etc., bellach ac nid drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae hyn yn wir boed yn gyfarfodydd o fewn y cyngor sir, yn y gymuned neu gydag unigolion yn y ward. Dau fater sydd wedi cymryd peth sylw ac amser yn ddiweddar yw dilyn hynt a helynt sefyllfa ysgolion ac addysg o fewn y ward oherwydd y pandemig ac agor siopau a busnesau Tref Beaumaris yn ddiogel. Yn naturiol, rhoddwyd cymorth i unigolion yn ymwneud ag effeithiau Cofid-19 yn ogystal.

Edrychaf ymlaen at roi cymorth a chefnogaeth i drigolion fy ward yn y dyfodol**.**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Alun Roberts

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Alun Roberts** | **Mehefin 2021** |